# ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

| **Teitl y cynnig:** | Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal |
|---|---|

## 1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

Bwriedir i'r argymhellion sy'n deillio o'r Rhaglen Dileu Elw gael effaith gadarnhaol ar fywydau plant sy'n derbyn gofal ac maent yn allweddol i drawsnewid gwasanaethau'n ehangach a fydd o fudd i blant a phobl ifanc yn fwy cyffredinol. Mae'r ymrwymiad yn deillio yn rhannol o farn plant a phobl ifanc a'r hyn y maent wedi'i ddweud wrth Weinidogion, Comisiynydd Plant Cymru a Voices from Care.

Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrawma cynnar yn aml wedi effeithio ar blant sy'n derbyn gofal a gall fod ganddynt anghenion iechyd sylweddol. Mae pob plentyn sy'n dod i mewn i'r system ofal yn cael asesiad iechyd fel rhan o'u cynllun gofal a chymorth Rhan 6 (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014). Mae'r cynllun yn nodi anghenion a chanlyniadau iechyd a llesiant y plentyn a sut y caiff y rhain eu diwallu. Mae Rhan 4 o Ddeddf 2014 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddiwallu'r anghenion gofal a chymorth hyn.

Bydd gweithredu'r Rhaglen yn ystyried barn, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc; hyrwyddo a pharchu eu hurddas; parchu eu nodweddion, eu diwylliant a'u credoau a darparu'r cymorth priodol i'w helpu i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

## 2. Esbonio sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Mae'r ymrwymiad i 'ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal' yn ceisio hyrwyddo'r hawliau a'r egwyddorion a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Rydym wedi nodi'r Erthyglau canlynol fel y rhai mwyaf perthnasol i'r cynnig:

- **Erthygl 3** - Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.
- **Erthygl 6** - Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu i'w llawn botensial.
- **Erthygl 12** - Mae gan blant yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i gael rhywun i ystyried eu barn.
- **Erthygl 19** - Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn cael gofal priodol, ac yn cael eu hamddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt.
- **Erthygl 20** - Rhaid i blant na allant gael gofal gan eu teulu eu hunain dderbyn gofal priodol, gan bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith.

- **Erthygl 23** - Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.
- **Erthygl 24 -** Mae gan bob plentyn yr hawl i'r iechyd gorau posibl. Rhaid i lywodraethau ddarparu gofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân, bwyd maethlon, amgylchedd glân ac addysg ar iechyd a lles fel y gall plant aros yn iach.
- **Erthygl 28** - Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg. Rhaid i addysg gynradd fod am ddim a rhaid i wahanol fathau o addysg uwchradd fod ar gael i bob plentyn.
- **Erthygl 39** - Rhaid i blant sydd wedi cael eu hesgeuluso, eu cam-drin, eu hecsbloetio, eu harteithio neu sy'n ddioddefwyr rhyfel gael cymorth arbennig i'w helpu i adennill eu hiechyd, eu hurddas, eu hunan-barch a'u bywyd cymdeithasol.

Mae nod yr ymrwymiad i ddileu elw preifat yn un hanfodol bwysig: i sicrhau sector gofal cymdeithasol plant mwy cynaliadwy a sicrhau gwell gwasanaethau a chanlyniadau bywyd i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae'r farchnad bresennol yn ddiffygiol ac, ym marn Llywodraeth Cymru, nid oes modd ei chynnal yn ei ffurf bresennol. Mae'r farchnad ddiffygiol hon yn cael effeithiau niweidiol ar ddarpariaeth gwasanaethau yng Nghymru a thrwy hynny, ar lesiant a chanlyniadau bywyd plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae'r ymrwymiad i ddileu elw preifat yn un rhan bwysig o becyn cyffredinol o fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu datblygu i gyflawni gweledigaeth newydd ar gyfer Gofal Cymdeithasol Plant, sy'n canolbwyntio ar werthoedd ac anghenion. Mae'n ymwneud â newid yn sylfaenol y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau i blant a'u teuluoedd drwy wasanaethau yn y gymuned sy'n diogelu ac yn hyrwyddo llesiant y person ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau gweld llai o blant a phobl ifanc yn dod i mewn i ofal a bod y gwasanaethau a ddarperir i'r rhai sy'n derbyn gofal yn gwella. Rydym eisiau dull gweithredu system gyfan fel bod plant sy'n derbyn gofal yn aros yn agos i'w cartrefi, yn gallu parhau i fod yn rhan o'u cymunedau a sicrhau bod unrhyw arhosiad mewn gofal mor fyr â phosibl; yn gyson â diwallu eu hanghenion orau a chefnogi canlyniadau gwell.

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu, er bod y potensial ar gyfer elw yn cael effaith o ran denu cyfalaf preifat a mentrau preifat i'r maes, fod gallu darparwyr er elw i dynnu elw allan o'r system yn peryglu cynaliadwyedd y sector gofal cymdeithasol plant ac yn cael effaith andwyol ar ganlyniadau plant.

Nid yw Llywodraeth Cymru felly yn credu y dylid cael marchnad ar gyfer gofal i blant, nac y dylid gwneud elw o ofalu am blant sy'n wynebu heriau penodol yn eu bywydau.

Y nod yw sicrhau nad yw'r arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi mewn gofal i blant sy'n derbyn gofal yn gwneud elw i unigolion nac endidau corfforaethol, ond ei fod yn hytrach yn cael ei wario ar wasanaethau plant i ddarparu gwell profiadau a chanlyniadau i blant a phobl ifanc, gan roi sylw i ddatblygu a gwella gwasanaethau a datblygiad proffesiynol pellach i staff.

Mae adborth gan blant a phobl ifanc yn awgrymu bod ganddynt deimladau cryf am gael gofal gan sefydliadau preifat sy'n gwneud elw o'u profiad o fod mewn gofal. Mae

Comisiynydd Plant Cymru a Voices from Care hefyd wedi ymgyrchu ar y mater. Roedd yn argymhelliad gan y Comisiynydd blaenorol yn ei hadroddiadau blynyddol a chafodd y mater ei gynnwys gan Voices from Care yn ymrwymiad yn ei faniffesto ar gyfer etholiad y Senedd.

Er bod risgiau'n gysylltiedig â gweithredu'r trefniadau newydd a allai effeithio'n negyddol ar blant a phobl ifanc, sy'n gysylltiedig yn bennaf â digonolrwydd darpariaeth a tharfu ar leoliadau, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i liniaru'r risgiau hyn.

Mae darpariaethau'r Bil yn darparu ar gyfer cyfnod pontio er mwyn osgoi tarfu ar blant sydd eisoes wedi'u lleoli gyda darparwyr na fydd yn gymwys mwyach i ddarparu'r gwasanaeth(au). Bydd hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol ddefnyddio'r capasiti sydd ar gael yn y sector hwnnw yn ystod y cyfnod wrth iddynt sicrhau digon o leoliadau eu hunain a chyda darparwyr nid-er-elw.

Cyfrifoldeb Awdurdodau Lleol fydd datblygu darpariaeth ddigonol i ragweld angen. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth iddynt i'w helpu i gyflawni'r dasg hon yn ogystal â'r mecanweithiau ehangach ar gyfer adrodd, goruchwylio a llywodraethu fel bod y rhain wedi'u hymgorffori yn y cyfrifoldebau cynllunio lleol a rhanbarthol eraill. Dim ond pan fydd Gweinidogion yn cael sicrwydd bod darpariaeth ddigonol o'r gwasanaethau nid-er-elw hyn ar sail genedlaethol y bydd Gweinidogion yn caniatáu i'r cyfnod pontio ddod i ben.

Yn ystod y cyfnod pontio hwn, gall awdurdodau lleol yng Nghymru wneud cais i Weinidogion Cymru gymeradwyo lleoli plentyn gyda darparwr er elw nad yw'n bodloni'r gofynion newydd, yn ddarostyngedig i amodau a mesurau diogelu penodol. Mae hyn yn sicrhau y caiff hawliau plant eu diogelu a bod yr effaith ar y dewis o leoliadau yn gyfyngedig wrth i'r sector drosglwyddo i'r model gofal newydd. Mae hefyd yn rhoi amser i ddarparwyr er elw drosi i fodel busnes nid-er-elw cymwys neu wneud addasiadau busnes eraill.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â grwpiau a chyrff sy'n cynrychioli plant sy'n derbyn gofal o bob rhan o'r sector plant i lywio'r ffordd y byddwn yn gweithredu'r Rhaglen.

I gefnogi gweithredu'r elfen hon, mae swyddogion yn datblygu dull o gyfathrebu am y Rhaglen gyda phartneriaid o'r Bwrdd Rhaglen Dileu Elw, gan gynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc. Bydd y dull hwn yn nodi'r negeseuon allweddol, y dôn a'r dull gweithredu sydd eu hangen i sicrhau bod bwriad a disgwyliadau'r Rhaglen yn cael eu cyfleu i blant a phobl ifanc fel y byddant yn teimlo eu bod yn cymryd rhan ac yn cyfleu eu safbwyntiau cyn gymaint â phosibl.